

Cynhaliwyd Cyfarfod o Bell o Gyngor Cymuned Talylychau trwy Gynhadledd fideo/ffôn nos Fawrth 1 Medi 2020 am 8pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: trwy fideo – Janine Roberts (Cadeirydd) Sarah Walters, Steve Haines, Jane Morgan (Clerc). Dros y Ffôn – Marged Bowen a John Williams. Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Sir Joseph Davies, Rhys Williams a Pauline George.

Datganiad o Fuddiant. Dim.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod 07.07.2020 yn gywir.

Materion sy'n codi.

Parcio yn achosi rhwystr ar y palmant yn Nyffryn Ig. Roedd ymateb wedi dod i law gan yr Heddlu yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r materion traffig yn Nhalylychau.

Cyfriflenni Banc Diweddaraf. Balans y cyfrif ar 15.07.2020 oedd £4,405.30.

Roedd y taliadau canlynol wedi cael eu gwneud ym mis Awst: Cyflog y Clerc £201.52 (yn cynnwys swm uwch wedi'i ôl-ddyddio i fis Mehefin) CThEM £50.40. Torri Glaswellt y Fynwent M & J Maintenance £500.00. Cafwyd cadarnhad gan Fanc Lloyds fod siec rhif 001050 am £500.00, taladwy i M & J Maintenance t/as Grave Concerns, wedi cael ei hatal, a bod siec newydd rhif 001052 wedi'i hanfon yn daladwy i M & J Maintenance am £500.00

Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol: Trywydd Cyf. Gwasanaeth Cyfieithu £95.90 a £30.34 (ar gyfer misoedd Chwefror, Mawrth, Mai a Mehefin). Cyflog y Clerc £168.88. CThEM £42.20. Torri Glaswellt y Fynwent M & J Maintenance £500.00.

Derbynneb am rodd o £50.00 i Ysgol y Cwm wedi dod i law.

Gohebiaeth a gafwyd trwy'r post ac e-bost wedi'u hanfon at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod trwy neges e-bost.

Neges e-bost gan Trywydd yn dweud ei fod yn codi ei ffioedd o £40 i £60 + TAW fesul 1,000 o eiriau o 1 Medi 2020 ymlaen. Cytunwyd i barhau am y tro, ond y Clerc i wneud ymholiadau gydag Un Llais Cymru.

*Clerks & Councils Direct.*

Cynllunio.

Cais Rhif E/40804. Cais Cynllunio Llawn. Estyniad un llawr i fyngalo yn Banc, Talylychau. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Cytunwyd y dylid rhoi gwybod i Adran y Priffyrdd, Cyngor Sir Caerfyrddin am y cwlffert wedi'i flocio ar yr heol uwchlaw Cwm-glaw, Talylychau.

Cytunwyd y dylid cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ddydd Mawrth, 3 Tachwedd 2020.

Nid oedd unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 6 Hydref 2020 am 8pm.